Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau Rhyngwladol
## Adroddiad Blynyddol 2022-23

Tachwedd 2023




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# **Cysylltiadau Rhyngwladol**

# Adroddiad Blynyddol 2022-23

Tachwedd 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o’r Pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn:



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd .......... 5**

**Argymhellion .......... 7**

**1. Rôl a chyfrifoldebau .......... 9**

Gwella tryloywder .......... 10

**2. Cyllideb .......... 13**

**3. Strategaeth ryngwladol .......... 15**

Adnewyddu .......... 15

Y Rhaglen Lywodraethu .......... 15

Rhwydwaith swyddfeydd tramor .......... 16

**4. Perthnasoedd â blaenoriaeth .......... 18**

Cytundebau dwyochrog .......... 18

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon .......... 18

Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE .......... 19

**5. Ymweliadau tramor ac ymwelwyr .......... 22**

**6. Deddfwriaeth .......... 24**

Cydsyniad Deddfwriaethol .......... 24

Bil Protocol Gogledd Iwerddon .......... 24

Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) .......... 25

Cytuniadau rhyngwladol .......... 26

**7. Gwaith yn y dyfodol .......... 27**

**Atodiad 1: Tystiolaeth ffurfiol .......... 28**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae “cymell tawel”, a “diplomyddiaeth gyhoeddus” yn dermau sy’n cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i ddisgrifio ei gwaith ym maes cysylltiadau rhyngwladol. Mae’r rhain yn disgrifio un ffordd ar gyfer meithrin enw da gwlad trwy ddiwylliant, chwaraeon, diplomyddiaeth a mwy i wneud cyfraniad cadarnhaol i’r byd.

Yn yr ychydig flynyddoedd ers mis Mehefin 2021, pan gafodd y Pwyllgor ei sefydlu, mae’r byd wedi newid yn syfrdanol ar gyflymder aruthrol.

Yng Nghymru, mae colli Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol penodedig yn 2021 yn golygu ei bod yn bwysicach fyth bod y pwnc yn aros ar yr agenda wleidyddol ac yn llygad y cyhoedd. Wedi’r cyfan, nid yw perthnasedd Cymru i’r byd wedi mynd yn llai.

Wrth i’r Pwyllgor wneud ei waith, mae parodrwydd Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth yn hollbwysig. Rydym wedi llwyddo i gynyddu’r wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus a gwella tryloywder. Mae’r Prif Weinidog yn dod i sesiynau craffu blynyddol ac rydym yn ddiolchgar am y cyfle i drafod materion pwysig ag ef. Rydym yn gobeithio y bydd y sesiynau hyn yn parhau i daflu goleuni ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau rhyngwladol.

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi amlinelliad o’n cynnydd a wnaed hyd yma, ochr yn ochr â map ffordd ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol. Ein gobaith yw y bydd hyn yn helpu pawb i weld ein camau nesaf ac yn eich annog i gymryd rhan. Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau’n flynyddol o nawr tan ddiwedd y Chweched Senedd yn 2026, ac edrychwn ymlaen at gael ymateb Llywodraeth Cymru i’r adroddiad hwn.

Rwy’n hyderus bod y byd yn fwy ymwybodol o Gymru erbyn hyn nag ar unrhyw adeg o’r blaen, a hynny o ganlyniad i gydymdrechion a phenderfynoldeb yn y Llywodraeth a’r tu allan iddi. Bydd y Pwyllgor yn chwarae ei ran i sicrhau bod y byd yn parhau i ddysgu am ein gwlad hanesyddol, hardd ac unigryw.



**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd y Pwyllgor

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gynyddu a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am gysylltiadau rhyngwladol, megis y dudalen we ar gyfer cytundebau dwyochrog rhyngwladol a sefydlwyd ar gais y Pwyllgor. ........Tudalen 12

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu cynnig y Prif Weinidog i drafod adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol â'r Pwyllgor. Bydd y dull gweithredu arfaethedig yn gyfle pwysig i'r Pwyllgor gyfrannu ei farn a'i ganfyddiadau o'r Chweched Senedd i'r Strategaeth Ryngwladol ar ei newydd wedd. ........Tudalen 16

**Casgliad 3.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i estyn y gwahoddiad hwn i bartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys rhanddeiliaid ........Tudalen 16

**Casgliad 4.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiadau ar weithgareddau swyddfeydd tramor a dogfen cylchoedd gwaith y swyddfeydd ac yn ei hannog i ddarparu digon o fanylion yn yr allbynnau hyn at ddibenion gwaith craffu. ........Tudalen 17

**Casgliad 5.** Rydym yn ailadrodd ein casgliad, a luniwyd ym mis Hydref 2022, ei bod yn amlwg bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i randdeiliaid yng Nghymru. Fodd bynnag, mae absenoldeb strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau'r DU a'r UE ar lefel y DU a Chymru yn creu heriau ar gyfer llywio'r berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit a chraffu'n effeithiol arni. ........Tudalen 21

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn ........Tudalen 25

**Argymhelliad 1.** Rydym yn ailadrodd ein cais a'r datganiadau a wnaethom yn ystod y gyllideb ddrafft flaenorol, sef bod gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu i'r Pwyllgor i'w gynorthwyo yn ei waith craffu. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion y canlyniadau a'r allbynnau a fydd yn cael eu cyflawni drwy ddyraniadau'r gyllideb ddrafft i gefnogi gwaith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu ........Tudalen 14

**Argymhelliad 2.** Galwn ar y Prif Weinidog i fod yn bresennol i roi tystiolaeth lafar ar gyfer gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.......... Tudalen 14

**Argymhelliad 3.** Gofynnwn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu tymor byr a chanolig a restrir yng nghynlluniau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol. ..........Tudalen 16

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth benodol ar gyfer yr UE..........Tudalen 21

**Argymhelliad 5.** Os na chaiff argymhelliad 4 ei dderbyn, dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy penodol wrth nodi ei blaenoriaethau fel y maent yn ymwneud â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE, a rhwng Cymru a'r UE. ..........Tudalen 21

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gwneud 'dimensiwn Ewropeaidd' y Strategaeth Ryngwladol yn fwy eglur, fel y'i disgrifiwyd gan y Prif Weinidog. ..........Tudalen 21

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yr UE fel un o'i pherthnasoedd â blaenoriaeth. ..........Tudalen 21

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad yn 2025-26 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad. ..........Tudalen 21

**Argymhelliad 9.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro pryd y bydd costau sy'n ymwneud â theithio tramor yn cael eu cyhoeddi nesaf..........Tudalen 22

**Argymhelliad 10.** Galwn ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi costau yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog i gyhoeddi'r costau diweddaraf ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol. ..........Tudalen 23

**Argymhelliad 11.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cywirdeb y rhestrau o ymweliadau tramor ac ymwelwyr â Chymru. ..........Tudalen 23

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys dadansoddiad manwl fel mater o drefn o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad pan fydd yn cyfeirio at faterion y DU a'r UE yn ei Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, fel a wnaed yn ystod y gwaith craffu ar y Bil hwn. ..........Tudalen 25

# 1. Rôl a chyfrifoldebau

**1.** Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ("y Pwyllgor") yn gyfrifol am graffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â chysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys cyflawni ei Strategaeth Ryngwladol[1], a'i chynlluniau gweithredu[2] cysylltiedig.

**2.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o awyddus i sicrhau nad yw proffil byd-eang Cymru yn mynd yn llai yn sgil newidiadau yn ein perthynas â'r UE. Rydym hefyd yn awyddus i barhau i fod yn ymwybodol o sut y mae gwaith Llywodraeth Cymru ym maes cysylltiadau rhyngwladol yn gorgyffwrdd â meysydd eraill yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor ac yn effeithio arnynt.

**3.** Eleni, gwnaethom gytuno[3] i ddechrau cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol i roi trosolwg o'n gwaith a chrynhoi themâu allweddol mewn un lle. Mae ein hadroddiad cyntaf yn grynodeb o'n gweithgareddau.

**4.** Mae'r Pwyllgor yn ystyried y materion a ganlyn yn rheolaidd:

- Cyllideb;
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau rhyngwladol;
- Gweithrediad y Strategaeth Ryngwladol, gan gynnwys gweithgareddau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru;
- Ymweliadau tramor ac ymwelwyr, a
- Deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol.

**5.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliadau rhagweithiol, gan gynnwys ar y canlynol:

- Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon[4] (cwblhawyd); a

[1] Llywodraeth Cymru: Strategaeth ryngwladol - 4 Ionawr 2020
[2] Llywodraeth Cymru: Cynlluniau gweithredu Rhyngwladol - 14 Rhagfyr 2020
[3] Cyfarfod y Pwyllgor: 25 Mai 2023
[4] Ymchwiliad Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

- Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd[5] (cyfredol).

**6.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymateb i'r materion a ganlyn:

- datblygiadau rhyngwladol sylweddol. Er enghraifft, llofnododd datganiad ar y cyd[6] gyda phwyllgorau eraill y Senedd flwyddyn ar ôl i Rwsia ymosod ar Wcráin; ac
- ymgynghoriadau perthnasol gan seneddau a sefydliadau eraill. Er enghraifft, ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi i'r berthynas rhwng y DU a'r EU yn y dyfodol[7].

**7.** Mae'r Cadeirydd yn cynrychioli'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd perthnasol a gynhelir yn y Senedd, megis uwchgynhadledd Cynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR), ac mewn cyfarfodydd diplomyddol gyda llysgenhadon a phwysigion sy'n ymweld.

**8.** Mae Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cynrychioli'r Senedd mewn nifer o gyrff seneddol perthnasol, gan gynnwys Pwyllgor y Rhanbarthau-Grŵp Cyswllt y DU, Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit.

**9.** Nid ni yw'r unig bwyllgor yn y Senedd sy'n trafod materion rhyngwladol. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac eraill i sicrhau bod materion rhyngwladol yn cael eu hystyried a bod gwaith craffu yn cael ei gynnal ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru.

## Gwella tryloywder

**10.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn adrodd ar gysylltiadau rhyngwladol mewn un lle yn unig, ac mae gofynion i ddarparu gwybodaeth i'r Senedd ar y pwnc yn gyfyngedig. Roedd Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol penodedig yn y Bumed Senedd, ond cafodd y swydd ei dileu yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2021, gyda'r Prif Weinidog yn ysgwyddo cyfrifoldebau'r rôl.[8]

---

[5] Ymchwiliad Pwyllgor: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd
[6] Senedd Cymru: Datganiad ar y cyd o Bwyllgorau'r Senedd blwyddyn ers dechrau rhyfel Wcrain – 24 Chwefror 2023
[7] Senedd y DU: Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd: Perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol
[8] Llywodraeth Cymru: Portffolio Gweinidogol – Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS

**11.** Ers i'r Pwyllgor gael ei sefydlu ym mis Mehefin 2021, rydym wedi ceisio sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n darparu gwybodaeth yn rheolaidd i'r Senedd. Gwneir hyn i sicrhau nad yw cysylltiadau rhyngwladol, yn niffyg Gweinidog penodedig, yn colli dim o ran ffocws yn ystod y cyfnodau rhwng sesiynau craffu blynyddol gyda'r Prif Weinidog.

**12.** Mae'r Prif Weinidog hefyd yn cael ei wahodd gerbron y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu ar y gyllideb adrannol o £8.38 miliwn[9].

**13.** Ar gais gennym ni, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- Rhestrau misol o ymweliadau Gweinidogol tramor ac ymweliadau diplomyddol â Chymru. Cyn inni gael y rhestrau hyn, byddai'r Pwyllgor yn dibynnu ar wahanol ffynonellau i fonitro ymweliadau, a byddai hyn yn creu heriau o ran craffu'n effeithiol ar weithgareddau Llywodraeth Cymru;

- Adroddiadau blynyddol ar weithgareddau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru;

- Hysbysiadau o gyfarfodydd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig o dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol[10];

- Gwybodaeth benodol mewn ymateb i geisiadau Pwyllgor, gan gynnwys copïau o ohebiaeth, ceisiadau am ystadegau, a gwybodaeth fanwl am agweddau penodol ar ein gwaith.

- Ar gais y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi lansio tudalen we newydd ar gyfer cytundebau dwyochrog rhyngwladol[11], gan eu trin yn gydradd â chytundebau domestig[12] ar ei wefan.

**14.** Rydym yn parhau i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar ffyrdd iddi wella ymhellach y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn gwella craffu,

[9] Llywodraeth Cymru: Cyllideb Derfynol 2023 i 2024 – 28 Chwefror 2023
[10] Senedd Cymru: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol – Tachwedd 2021
[11] Llywodraeth Cymru: Cytundebau dwyochrog Rhyngwladol – 13 Mehefin 2023
[12] Llywodraeth Cymru: Concordatau, memoranda cyd-ddealltwriaeth a chytundebau eraill – 9 Mehefin 2023

cynorthwyo partïon â diddordeb a dangos ei gweithgareddau. Er enghraifft, mae ein Hadroddiad ar yr ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon[13], a'n hymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ar ei ymchwiliad i berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol[14], yn gwneud argymhellion ar y materion hyn.

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i gynyddu a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am gysylltiadau rhyngwladol, megis y dudalen we ar gyfer cytundebau dwyochrog rhyngwladol a sefydlwyd ar gais y Pwyllgor.

[13] Adroddiad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes Newydd - Hydref 2023 [PDF 1.8MB]
[14] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]

# 2. Cyllideb

**15.** Mae'r Pwyllgor yn cynnal gwaith craffu blynyddol[15] ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru o ran gwaith cysylltiadau rhyngwladol.

**16.** Mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ddiwethaf[16] (2023-24), rydym wedi nodi nad yw'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol, yn union fel llawer o linellau cyllideb, yn ddiogel rhag heriau a gyflwynir gan chwyddiant, cynnydd mewn costau byw na'r rhyfel yn Wcráin.

**17.** Roedd y gyllideb adrannol o £8.38 miliwn[17] i fod i gael ei chynnal yn 2023-24, ond mae chwyddiant wedi troi'r swm hwn yn doriad mewn termau real i'r swyddfeydd tramor, sy'n gwneud blaenoriaethu gweithgareddau'n bwysig.

**18.** Gwnaethom fynegi ein siom am y canlynol:

- y byddai'r Prif Weinidog yn darparu ymatebion ysgrifenedig i'n cwestiynau yn hytrach na rhoi tystiolaeth lafar[18]; a
- na fyddai'r Prif Weinidog yn barod i ymrwymo i rannu canlyniadau ac allbynnau a gyflawnir drwy ddyraniadau cyllideb ddrafft i gefnogi'r Strategaeth Ryngwladol a chynlluniau gweithredu. Fe wnaethom egluro ein rhesymeg dros y cais am y wybodaeth hon, gan gynnwys y ffaith y byddai'n gwella dealltwriaeth a rhoi sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor a rhanddeiliaid y byddai gwariant yn y maes hwn yn cael ei dargedu, ac y byddai'n effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog ailystyried y cais hwn.

**19.** Byddwn yn craffu ar y gyllideb nesaf ym mis Ionawr 2024, ac rydym wedi gwahodd y Prif Weinidog i roi tystiolaeth lafar.[19]

---

[15] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Gwaith wedi'u gwblhau ac adroddiadau cyhoeddedig
[16] Adroddiad y Pwyllgor: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24 – Chwefror 2023 [PDF 286KB]
[17] Llywodraeth Cymru: Cyllideb Derfynol 2023 i 2024 – 28 Chwefror 2023
[18] Llythyr at y Prif Weinidog: Rhoi tystiolaeth lafar am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 – 30 Tachwedd 2022 [PDF 85KB]
[19] Llythyr at y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 25 Hydref 2023 [PDF 184KB]

**Argymhelliad 1.** Rydym yn ailadrodd ein cais a'r datganiadau a wnaethom yn ystod y gyllideb ddrafft flaenorol, sef bod gwybodaeth fanylach yn cael ei darparu i'r Pwyllgor i'w gynorthwyo yn ei waith craffu. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion y canlyniadau a'r allbynnau a fydd yn cael eu cyflawni drwy ddyraniadau'r gyllideb ddrafft i gefnogi gwaith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflawni'r Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu.

**Argymhelliad 2.** Galwn ar y Prif Weinidog i fod yn bresennol i roi tystiolaeth lafar ar gyfer gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.

# 3. Strategaeth ryngwladol

**20.** Nid yw Llywodraeth Cymru yn adrodd yn benodol ar ei Strategaeth Ryngwladol (2020-25). Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn monitro'r hyn sy'n digwydd ym maes cysylltiadau rhyngwladol er mwyn mesur cynnydd. At y perwyl hwn, mae'n defnyddio cyfuniad o adroddiadau swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, datganiadau Gweinidogion, sesiynau tystiolaeth, busnes y Senedd a'r cyfryngau cymdeithasol.

## Adnewyddu

**21.** Yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol gyda'r Prif Weinidog[20] ym mis Mai 2023, cyhoeddodd y Prif Weinidog y caiff y Strategaeth Ryngwladol ei hadnewyddu pan ddaw i ben yn 2025 i gynnwys yr amser hyd at etholiad y Senedd yn 2026.

**22.** Yn 2022, gofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Weinidog egluro'r broses a ddefnyddir i adnewyddu'r Strategaeth wrth i 2025 agosáu. Dywedodd:

> *"Absolutely happy to have that sort of discussion [with the Committee]— set it out on paper to begin with, and then at a future occasion to discuss it, if that was useful."*[21]

### Y Rhaglen Lywodraethu

**23.** Mae Rhaglen Lywodraethu[22] Llywodraeth Cymru'n cynnwys ymrwymiadau i roi'r "presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang". Nid yw'r Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2016 ac a ddiweddarwyd yn 2021, yn sôn am y Strategaeth Ryngwladol.

**24.** Nodir y tri ymrwymiad ychwanegol a ganlyn:

1. Sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru;

[20] Cyfarfod y Pwyllgor: 10 Mai 2023
[21] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 23 Mehefin 2022, paragraff 64
[22] Llywodraeth Cymru: Rhaglen lywodraethu – 4 Gorffennaf 2023

2. Rhoi rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol gwerth £65 miliwn ar waith; a

3. Ailfywiogi ein perthynas efeillio ledled yr UE drwy Gronfa Gefeillio Pobl Ifanc.

**25.** Mae materion rhyngwladol, fel bioamrywiaeth, y polisi ffoaduriaid ac ymgorffori cytuniadau yng nghyfraith Cymru, wedi eu plethu drwy'r Rhaglen Lywodraethu, a byddant hefyd yn chwarae rhan bwysig yng nghysylltiadau rhyngwladol Cymru.

**26.** Byddwn yn monitro cynnydd[23] yn erbyn yr ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu.

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu cynnig y Prif Weinidog i drafod adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol â'r Pwyllgor. Bydd y dull gweithredu arfaethedig yn gyfle pwysig i'r Pwyllgor gyfrannu ei farn a'i ganfyddiadau o'r Chweched Senedd i'r Strategaeth Ryngwladol ar ei newydd wedd.

**Casgliad 3.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i estyn y gwahoddiad hwn i bartïon eraill sydd â diddordeb, gan gynnwys rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 3.** Gofynnwn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wneir yn erbyn y camau gweithredu tymor byr a chanolig a restrir yng nghynlluniau gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol.

## Rhwydwaith swyddfeydd tramor

**27.** Rhannau allweddol o waith craffu'r Pwyllgor ar faterion rhyngwladol yw

- adroddiadau blynyddol ar y rhwydwaith tramor[24]; a
- dogfen cylch gwaith swyddfeydd tramor[25],

a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

[23] Ymchwil y Senedd: Cymru gartref a thramor – Medi 2023
[24] Llywodraeth Cymru: Rhwydaith Tramor: Adroddiad blynyddol 2022 i 2023 – 19 Mai 2023
[25] Llywodraeth Cymru: Cylchoedd gwaith rhwydwaith swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru – 27 Medi 2023

**28.** Ym mis Ebrill 2023, ymwelodd Aelodau â swyddfa Llywodraeth Cymru yn Nulyn fel rhan o'n hymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon[26] i gwrdd â staff a gwella eu dealltwriaeth o waith bob dydd y swyddfa.

**29.** Mae Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn ymweld yn rheolaidd â swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel yn rhinwedd eu rôl fel cynrychiolwyr y Senedd ar gyrff y DU a'r UE yn dilyn Brexit, megis Cynulliad Partneriaeth Seneddol[27] a Pwyllgor Rhanbarthau'r UE - Grŵp Cyswllt y DU[28].

**Casgliad 4.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiadau ar weithgareddau swyddfeydd tramor a dogfen cylchoedd gwaith y swyddfeydd ac yn ei hannog i ddarparu digon o fanylion yn yr allbynnau hyn at ddibenion gwaith craffu.

[26] Ymchwiliad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[27] Ymchwil y Senedd: 'Magu cyhyrau': Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE yn nodi angen hanfodol ar gyfer cydweithredu pellach. – 24 Tachwedd 2022
[28] Ymchwil y Senedd: Meithrin Cysylltiadau'r Dyfodol: Y Senedd i groesawu cyfarfod cyntaf Pwyllgor y Rhanbarthau Ewropeaidd yn y DU - Grŵp Cyswllt y DU – 17 Mawrth 2022

# 4. Perthnasoedd â blaenoriaeth

**30.** Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn nodi ei pherthnasoedd â blaenoriaeth:

> *"Gwledydd: Yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, UDA a Chanada*
> *Rhanbarthau: Gwlad y Basg, Llydaw a Fflandrys."*

## Cytundebau dwyochrog

**31.** Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gytundebau dwyochrog rhyngwladol gweithredol ar waith gyda Québec, Llydaw, Gwlad y Basg, Iwerddon, Rhaglawiaeth Oita a Fflandrys.

**32.** O ganlyniad i'n gwaith, mae'r rhain wedi cael eu rhestru ar dudalen benodol ar wefan Llywodraeth Cymru. Byddwn yn parhau i fonitro cytundebau dwyochrog rhyngwladol a gwblheir gan Lywodraeth Cymru.

## Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

**33.** Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn nodi Iwerddon fel gwlad flaenoriaeth o ran cynnal perthynas â hi. Mae'r ddwy lywodraeth wedi llofnodi Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd[29] sy'n amlinellu sut y byddant yn cydweithio ar feysydd polisi a rennir.

**34.** Dyma berthynas ryngwladol strategol fwyaf datblygedig Llywodraeth Cymru â gwlad arall a'i llywodraeth, gyda dulliau ymgysylltu strwythuredig, amcanion strategol a chamau gweithredu penodol.

**35.** Gwnaethom gynnal ymchwiliad[30] i'r berthynas hon, gan gyhoeddi ein hadroddiad[31] ar 5 Hydref 2023.

---

[29] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 – 1 Mawrth 2021
[30] Ymchwiliad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[31] Adroddiad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes Newydd - Hydref 2023 [PDF 1.8MB]

**36.** Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r gwaith hwn yn datblygu, gan gynnwys ein hymrwymiad ein hunain i gryfhau cysylltiadau â'n chwaer bwyllgorau yn Oireachtas Iwerddon.

## Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE

**37.** Mae'n amlwg bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i randdeiliaid yng Nghymru. Rydym wedi gwneud nifer o sylwadau yn y maes hwn, gan gynnwys:

- absenoldeb strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau'r DU a'r UE ar lefel y DU a Chymru yn cynrychioli heriau wrth lywio, a chyflawni gwaith craffu effeithiol ar y berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit. Mae hyn yn cael ei ddwysáu gan ehangder cyfrifoldebau Gweinidogol Llywodraeth Cymru[32] o ran cyflawni'r trefniadau newydd.
- gallai natur cysylltiadau rhwng y DU a'r UE effeithio ar y gwaith o gyflawni[33] Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru a chysylltiadau rhwng Cymru a'r UE yn fwy cyffredinol.
- dylai'r pedair gwlad gael eu cynnwys a'u cynrychioli[34] mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.
- Rydym yn parhau i gredu ym mhwysigrwydd cysylltiad uniongyrchol[35] rhwng llywodraethau a deddfwrfeydd datganoledig â sefydliadau'r UE.
- Rydym hefyd yn pryderu bod yr heriau y mae rhanddeiliaid yn eu hwynebu ers Brexit o ran cymryd rhan mewn cysylltiadau rhwng y DU

[32] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]
[33] Adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon – Tachwedd 2022 [PDF 145KB]
[34] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]
[35] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]

a'r UE wedi arwain at lai[36] o gynrychiolaeth ar gyfer buddiannau Cymru[37], gyda risg y gallai cynrychiolaeth fynd yn llai byth yn y dyfodol.

- Mae gan Gymru fuddiant uniongyrchol ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon[38], gan gynnwys o ran yr holl faterion sy'n effeithio ar fusnesau Cymru a llif masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, o gofio pwysigrwydd strategol ei phorthladdoedd sy'n wynebu'r gorllewin.
- Rydym yn croesawu cwblhau Fframwaith Windsor[39] a'r cyfleoedd posibl a gyfyd yn sgil hynny, yn enwedig o ran cysylltiad y DU â Horizon. Cyn iddo ddod i ben, gwnaethom alw ar y DU a'r UE i gynnal trafodaethau i geisio ateb[40] i'r materion a godwyd gan y Protocol.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn mynd ar drywydd y materion hyn yn barhaus, gan gynnwys yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol gyda'r Prif Weinidog[41] ym mis Mai 2023.

**39.** Mewn perthynas ag adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol yn 2025, dywedodd y Prif Weinidog[42] wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 18 Medi:

> *"…there may be opportunities to make the European dimension of [the refresh] a bit more explicit." [paragraff 105]*

[36] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]
[37] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]
[38] Adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon – Tachwedd 2022 [PDF 145KB]
[39] Adroddiad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd – Hydref 2023
[40] Adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon – Tachwedd 2022 [PDF 145KB]
[41] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (Hybrid) – dydd Mercher, 10 Mai 2023 09.30 – Eitem 6 ar yr Agenda
[42] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad – 18 Medi 2023, paragraff 105

**40.** Nododd y Prif Weinidog hefyd ei ddull gweithredu strategol mewn perthynas â'r UE[43] mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor hwnnw ar 6 Hydref.

**Casgliad 5.** Rydym yn ailadrodd ein casgliad[44], a luniwyd ym mis Hydref 2022, ei bod yn amlwg bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i randdeiliaid yng Nghymru. Fodd bynnag, mae absenoldeb strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau'r DU a'r UE ar lefel y DU a Chymru yn creu heriau ar gyfer llywio'r berthynas rhwng y DU a'r UE ar ôl Brexit a chraffu'n effeithiol arni.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio strategaeth benodol ar gyfer yr UE.

**Argymhelliad 5.** Os na chaiff argymhelliad 4 ei dderbyn, dylai Llywodraeth Cymru fod yn fwy penodol wrth nodi ei blaenoriaethau fel y maent yn ymwneud â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE, a rhwng Cymru a'r UE.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn gwneud 'dimensiwn Ewropeaidd' y Strategaeth Ryngwladol yn fwy eglur, fel y'i disgrifiwyd gan y Prif Weinidog.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yr UE fel un o'i pherthnasoedd â blaenoriaeth.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei dull gweithredu ar gyfer yr adolygiad yn 2025-26 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad.

**41.** Rydym yn nodi gohebiaeth y Prif Weinidog â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn nodi blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

---

[43] Llythyr gan y Prif Weinidog at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: dull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd – 6 Hydref 2023 [PDF 154KB]

[44] Ymateb y Pwyllgor: Ymchwiliad Pwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi i berthynas y DU a'r EU yn y dyfodol – Rhagfyr 2022 [PDF 802KB]

# 5. Ymweliadau tramor ac ymwelwyr

**42.** Mae'r Pwyllgor yn cael rhestrau misol o ymweliadau Gweinidogol dramor ac ymweliadau diplomyddol â Chymru.

**43.** Cyfanswm y costau a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2022 ar gyfer 2021-22 oedd £10,406.34. Ym mis Mawrth, ymatebodd y Prif Weinidog[45] i geisiadau ysgrifenedig am gostau mewn perthynas â dau ymweliad Gweinidogol, â Pharis a Brwsel, ym mis Mawrth 2023. Yn ei ymateb, dywedodd y Prif Weinidog y byddai costau'n cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, ond nid yw'r rhain wedi ymddangos eto.

**44.** Dyma a ddywed Cod Gweinidogion Llywodraeth Cymru[46]:

> *"Bydd rhestr yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn o bob un o'r teithiau dramor gan Weinidogion sy'n costio mwy na £500, ynghyd â chyfanswm cost holl ymweliadau'r Gweinidogion dramor." [paragraff 9.8]*

**45.** Mae paragraffau 9.2 i 9.10 o God y Gweinidogion yn pennu rheolau ar gyfer ymweliadau Gweinidogion dramor.

**46.** Mae paragraff 5.22 hefyd yn ei wneud yn ofynnol bod rhestr o roddion a lletygarwch gwerth mwy na £320 a dderbynnir gan Weinidogion ar ran Llywodraeth Cymru yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o nifer o ymweliadau gweinidogol dramor sy'n debygol o gyrraedd y trothwyon adrodd hyn a byddwn yn parhau i fonitro ymweliadau tramor.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro pryd y bydd costau sy'n ymwneud â theithio tramor yn cael eu cyhoeddi nesaf.

[45] Senedd Cymru: Cwestiynau Ysgrifenedig a gyflwynwyd ar 21/03/2023 i'w hateb ar 28/03/2023
[46] Llywodraeth Cymru: Cod y gweinidogion – 5 Awst 2021

**Argymhelliad 10.** Galwn ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi costau yn unol ag ymrwymiad y Prif Weinidog i gyhoeddi'r costau diweddaraf ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cywirdeb y rhestrau o ymweliadau tramor ac ymwelwyr â Chymru.

# 6. Deddfwriaeth

**48.** Mae'r Pwyllgor yn ystyried deddfwriaeth sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, fel a ganlyn.

## Cydsyniad Deddfwriaethol

**49.** Cawsom y dasg o graffu ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a ganlyn[47]:

### Bil Protocol Gogledd Iwerddon

**50.** Yn ein hadroddiad[48], gwnaethom:

- godi pryderon bod y Bil yn peri risg i enw da rhyngwladol y DU a'i hygrededd mewn cyfraith ryngwladol;
- codi pryderon am y ffaith bod y Bil yn nodi dirywiad yn y berthynas rhwng y DU a'r UE a allai yn ei dro effeithio ar y gallu i gyflawni Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon, a chysylltiadau rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn annog y ddwy ochr i gynnal trafodaethau ar fyrder i geisio ateb i'r materion a godwyd gan y Protocol;
- cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru bod gan Gymru fuddiant uniongyrchol yn y Protocol, gan gynnwys o ran yr holl faterion sy'n effeithio ar fusnesau Cymru a llif masnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, o gofio pwysigrwydd strategol ei phorthladdoedd sy'n wynebu'r gorllewin.

[47] Senedd Cymru: Cydsyniad Deddfwriaethol – Y Chweched Senedd
[48] Adroddiad y Pwyllgor: Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Protocol Gogledd Iwerddon – Tachwedd 2022 [PDF 145KB]

## Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

**51.** Yng ngoleuni'r risgiau posibl a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data'r DU, mae ein hadroddiad[49] yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ar effaith y Bil ar gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, gan gynnwys trafodaethau rhynglywodraethol ar y Bil wrth iddo fynd drwy Senedd y DU ac yn barhaus pe bai'n cael ei ddeddfu.

Ymatebodd y Prif Weinidog[50] fel a ganlyn:

> *"Byddaf yn parhau i fynd ati'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith bosibl y Bil ar gysylltiadau rhwng yr UE a'r DU drwy'r broses Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, yn enwedig mewn perthynas â phryderon am benderfyniad yr UE ar ddigonolrwydd data, hyd nes y byddaf yn fodlon na fydd y Bil yn effeithio ar ofynion digonolrwydd data yr UE."*

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymrwymiad hwn.

**52.** Gwnaeth yr ymateb hefyd ddarparu asesiad Llywodraeth Cymru o'r Bil yn erbyn darpariaethau penodol yn y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE[51]. Cawsom hyn yn fuddiol iawn wrth graffu ar y materion a godwyd yn y Bil.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys dadansoddiad manwl fel mater o drefn o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad pan fydd yn cyfeirio at faterion y DU a'r UE yn ei Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, fel a wnaed yn ystod y gwaith craffu ar y Bil hwn.

---

[49] Adroddiad y Pwyllgor: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 1 a Rhif 2 ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – Gorffennaf 2023 [203KB]
[50] Ymateb Llywodraeth Cymru: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 1 a Rhif 2 y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) – 5 Medi 2023 [PDF 206KB]
[51] Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar y naill law, a'r Undeb Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewrop ar y llaw arall, (Saesneg yn unig)

## Cytuniadau rhyngwladol

**53.** Rydym yn ystyried cytuniadau a ddygir i'n sylw gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, sydd â phroses bwrpasol ar gyfer craffu ar gytuniadau[52]. Mae'r Pwyllgor hwnnw'n hysbysu pwyllgorau eraill y Senedd o gytuniadau y mae Lywodraeth y DU wedi cytuno arnynt sy'n dod o fewn eu cylchoedd gwaith.

**54.** Yn ddiweddar, croesawodd y Prif Weinidog ein diddordeb[53] mewn cytundebau rhyngwladol yn ystod ein hystyriaeth o Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar ar Ddull Integredig o ran Diogeledd, Diogelwch a Gwasanaethau mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill.

[52] Senedd Cymru: Cytundebau rhyngwladol
[53] Ymateb gan y Prif Weinidog: Confensiwn Cyngor Ewrop ar Ddiogelwch a Gwasanaethau Integredig mewn Gemau Pêl-droed a Digwyddiadau Chwaraeon Eraill – 25 Gorffennaf 2023

# 7. Gwaith yn y dyfodol

**55.** Drwy gydol y flwyddyn, mae Aelodau'r Pwyllgor wedi nodi a thrafod syniadau ar gyfer gwaith posibl yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ychwanegol at ein gwaith arferol ar gysylltiadau rhyngwladol a'n hymchwiliad i Ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r UE[54].

**56.** Yn y dyfodol, gallai gwaith y Pwyllgor ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gweithredu ac adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol
- Gwledydd â blaenoriaeth a chysylltiadau rhanbarthol
- Adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU

[54] Ymchwiliad y Pwyllgor: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE

# Atodiad 1: Tystiolaeth ffurfiol

Mae'r holl dystiolaeth i'w gweld ar **wefan y Pwyllgor**.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yng **Nghofnod y Trafodion**.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **10 Mai 2023** | **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Paula Walsh, Dirprwy Gyfarwyddwr Cysylltiadau Rhyngwladol,**<br>Llywodraeth Cymru |